

Hysbysiad o Gynnig

CYNGOR SIR Y FFLINT

B5127 MILL LANE, ELFED DRIVE, POTTERS WAY, BEECHTREE ROAD, TABERNACLE STREET, ORCHARD CLOSE, PADESWOOD ROAD NORTH, MOLD ROAD, BRUNSWICK ROAD A HAWKESBURY ROAD BWCLE

GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG I AROS AR UNRHYW ADEG

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013, i gyflwyno:


Cyfyngiadau 'Dim Aros ar Unrhyw Adeg':-

1. Mewn lleoliadau amrywiol ar ddwy ochr Elfed Drive ger y cyffyrdd â Potters Way a Beechtree Road.
2. Mewn lleoliadau amrywiol ar ddwy ochr y B5127 Mill Lane.
3. Mewn lleoliadau amrywiol ar ddwy ochr Tabernacle Street.
4. Mewn lleoliadau amrywiol ar ddwy ochr Padeswood Road North.
5. Yng nghyffordd Elfed Drive â Potters Way.
6. Yng nghyffordd Elfed Drive â Beechtree Road.
7. Yng nghyffordd Tabernacle Street â Padeswood Road North.
8. Yng nghyffordd Tabernacle Street ag Orchard Close.
9. Yng nghyffordd y B5127 Mill Lane gyda Hawkesbury Road ger Ysgol Uwchradd Elfed.
10. Yng nghyffordd y B5127 Mill Lane gydag Ysgol Uwchradd Elfed / Ffordd Wasanaeth y Ganolfan Chwaraeon.
11. Yng nghyffordd Mill Lane gyda Padeswood Road North.
12. Yng nghyffordd Mill Lane gyda Brunswick Road.
13. Yng nghyffordd Mill Lane gyda Mold Road.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol 'Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013' yn parhau mewn grym.

Er diogelwch yn ystod y Pandemig Covid-19, os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y cynnig a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn, cynghorir eich bod yn eu darllen ar ein gwefan ar www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymynion Rheoleiddio Traffig neu gallwch ofyn am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, a'r sail ar gyfer gwrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn dydd Gwener, 3 Rhagfyr 2021 gan ddyfynnu cyfeirnod rhif SS/TRO/JB/46



Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR. Dydd Gwener, 12 Tachwedd 2021